

B9. Datblygu diwylliant eich sefydliad

Crynodeb o'r Uned

Beth yw cwmpas yr uned?

Mae gan bob sefydliad, waeth beth fo'i faint neu ei hanes, ddiwylliant (mae'r 'ffordd y byddwn ni'n gwneud pethau yma' yn ddiffiniad syml ohono). Mae diwylliant sefydliad wedi'i seilio ar ragdybiaethau a gwerthoedd ynglyn â busnes, bywyd gwaith a pherthnasau. Bydd y gwerthoedd yma'n dylanwadu ar y ffordd y bydd pobl yn ymddwyn tuag at ei gilydd a chwsmeriaid, a sut berthynas sydd ganddyn nhw'n â'u gwaith. Efallai nad oes y fath beth â diwylliant 'cywir' neu 'anghywir'. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ddiwylliant sefydliad fod yn unol â'i weledigaeth a'i strategaeth gyffredinol. Os nad yw'r diwylliant a'r strategaeth yn cydweddu i'w gilydd, mae'n debygol na fydd y weledigaeth yn cael ei chyflawni.

At ddibenion yr uned hon, gall 'sefydliad' olygu endid hunangynhwysol fel cwmni sector preifat, elusen neu awdurdod lleol **neu** uned weithredu sylweddol ei maint, sydd ag ymreolaeth sylweddol, o fewn sefydliad mwy.

Ar gyfer pwy mae'r uned?

Argymhellir yr uned ar gyfer uwch reolwyr.

Cysylltiadau ag unedau eraill

Mae gan yr uned hon gysylltiadau ag unedau eraill yng nghyffres gyffredinol y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer rheolaeth ac arweinyddiaeth, yn enwedig **B7. Darparu arweinyddiaeth ar gyfer eich sefydliad, C3. Annog arloesedd yn eich sefydliad, C4. Arwain newid, C5. Cynllunio newid, E7. Sicrhau bod eich sefydliad yn trin iechyd a diogelwch yn effeithiol a F10. Datblygu sefydliad sy'n canolbwyntio ar ei gwsmeriaid.**

Sgiliau

Isod rhestrir y prif 'sgiliau' generig y mae angen eu defnyddio wrth ddatblygu diwylliant eich sefydliad. Mae cynnwys manwl yr uned yn nodi'n benodol/yn awgrymu'r sgiliau hyn, ac maent wedi'u rhestru yma fel gwybodaeth ychwanegol.

- Meddwl yn strategol
- Arwain trwy esiampl
- Dysgu
- Rheoli gwrthdaro
- Cyfathrebu
- Gwerthfawrogi a chefnogi pobl eraill
- Monitro

- Cymell
- Adeiladu consensws
- Dylanwadu a pherswadio

B9. Datblygu diwylliant eich sefydliad

Canlyniadau perfformiad effeithiol

Mae'n rhaid i chi allu gwneud y pethau canlynol:

1. Cytuno ar werthoedd a rhagdybiaethau sy'n annog ymddygiad sy'n gyson â gweledigaeth a strategaeth gyffredinol eich sefydliad, ac ag anghenion a buddiannau budd-ddeiliaid allweddol.
2. Sicrhau bod eich ymddygiad personol, eich gweithredoedd a'ch geiriau yn atgyfnerthu'r gwerthoedd a'r rhagdybiaethau yma'n gyson.
3. Cyfleu gwerthoedd y cytunwyd arnyn nhw i bobl yn eich sefydliad drwyddo draw, a'u cymell i roi'r rhain ar waith.
4. Rhoi polisiau, rhaglenni a systemau ar waith i gefnogi gwerthoedd y cytunwyd arnyn nhw.
5. Gwrthwynebu negeseuon sy'n gwrthdaro â gwerthoedd y cytunwyd arnyn nhw.
6. Monitro ac addasu gwerthoedd a rhagdybiaethau yn gyson, a'r modd o'u cymhwyso.

Ymddygiad wrth wraidd perfformiad effeithiol

1. Byddwch yn mynd ati i herio'r sefyllfa sydd ohoni ac yn ceisio dod o hyd i well dewisiadau.
2. Byddwch yn dod o hyd i ffyrdd ymarferol o oresgyn rhwystrau.
3. Byddwch yn dangos eich bod yn ymwybodol o'ch gwerthoedd, eich cymelliannau a'ch emosiynau eich hun.
4. Byddwch yn dangos empathi ag anghenion, teimladau a chymelliannau pobl eraill ac yn mynd ati i ymddiddori yn eu pryderon.
5. Byddwch yn sicrhau bod amser ar gael i gefnogi eraill.
6. Byddwch yn dod i gytundeb clir ynglyn â'r hyn y disgwylir i eraill ei gyflawni ac yn eu dal yn gyfrifol am hyn.
7. Byddwch yn creu ymdeimlad o bwrpas cyffredin.
8. Byddwch yn defnyddio tactegau a strategaethau cyfreithlon amrywiol i ddylanwadu ar bobl.
9. Byddwch yn cydnabod y cyfleoedd y mae amrywiaeth ymhlith pobl yn eu cyflwyno.

B9. Datblygu diwylliant eich sefydliad

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Gwybodaeth gyffredinol a dealltwriaeth

1. Cysyniad diwylliant o ran bod yn berthnasol i sefydliadau
2. Gwahanol ddiffiniadau o ddiwylliant cyfundrefnol
3. Pwysigrwydd gwerthoedd wrth gynnal perfformiad unigolion a pherfformiad y sefydliad
4. Ffactorau mewnol ac allanol sy'n dylanwadu ar ddiwylliant cyfundrefnol, gan gynnwys diwylliannau cenedlaethol
5. Gwahanol fathau o ddiwylliant cyfundrefnol
6. Y berthynas rhwng diwylliant, strategaeth a pherfformiad y sefydliad
7. Egwyddorion a dulliau o reoli newid diwylliant o fewn sefydliad

Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i ddiwydiant/sector

1. Gofynion cyfreithiol, rheoliadol a moesegol yn eich sector
2. Mathau o ddiwylliant cyfundrefnol sydd i'w gweld amlaf yn eich sector, a'u cryfderau a'u cyfyngiadau

Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i'r cyd-destun

1. Gweledigaeth a strategaeth eich sefydliad
2. Diwylliant presennol y sefydliad
3. Gwerthoedd, rhagdybiaethau ac ymddygiadau sy'n gyson ac yn anghyson â'ch gweledigaeth a'ch strategaeth
4. Anghenion a buddiannau budd-ddeiliaid allweddol
5. Dulliau effeithiol o gyfleu gwerthoedd, a chefnogi'r ffordd o'u cymhwyso yn eich sefydliad
6. Ffyrdd effeithiol o ddelio â negeseuon ac ymddygiad sy'n gwrthdaro â gwerthoedd a rhagdybiaethau y cytunwyd arnyn nhw